

# MATERION CWRICWLAIDD

## CURRICULUM MATTERS



Ysgol Gyfun Gymunedol  
Penweddig

Mae Penweddig yn cynnig:

**Penweddig Offers:**

- **Awyrgylch deuluol ofalgar**  
**A caring family environment**
- **Canlyniadau academaidd a galwedigaethol ardderchog**  
**Excellent academic and vocational achievements**
- **Safon rhagorol o ddwyieithrwydd**  
**A high standard of bilingualism**
- **Gofal bugeiliol ardderchog**  
**Excellent pastoral care**
- **Darpariaeth ragorol i foddio ystod eang o ofynion dysgu ychwanegol gan gynnwys dyslecsia**  
**Outstanding provision to meet a wide range of additional learning needs including dyslexia**
- **Rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys chwaraeon, theatr a cherddoriaeth**  
**A wide range of extra curricular programmes including sports, theatre and music**
- **Cyfleoedd gwych i ddisgyblion gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gweithgareddau eraill yr Urdd**  
**Wonderful opportunities for pupils to compete in the Urdd National Eisteddfod and other Urdd activities**
- **Ysgol iach**  
**A healthy school**
- **Adeilad a chaeau chwarae ardderchog**  
**Excellent building and playing fields**

## THE INSPECTION JANUARY 2017

This is what the inspectors said about Penweddig's curriculum:

*"The curriculum is broad and balanced and there is a valuable range of extra-curricular activities"*

## THE USE OF WELSH

Penweddig was created to provide a Welsh learning environment and Welsh medium education for the children of north Ceredigion.

One of the school's principal aims is to be a Welsh community. At Penweddig the Welsh language and Welsh culture is given a high profile.

This is not done within an insular, inward-looking environment but within a whole school framework and a range of activities that broaden pupils' horizons far beyond the boundaries of Ceredigion and Wales. Learning foreign languages and providing visits that give pupils experiences of Europe and beyond are given a prominent place in the school's activities. Every effort is made to develop pupils' understanding of other cultures and the ways of life of other people.

More than half of Penweddig's pupils come from homes where little or no Welsh is spoken. The school day is the main opportunity that they have to practise their Welsh. **The school therefore expects pupils to speak Welsh in all their school activities and urges parents to give them every encouragement.**

Increasingly, the Welsh language and bilingualism are an economic asset in their own right. The demand for bilingual services and employees has increased dramatically and continues to rise. Therefore, acquiring a command of Welsh and attaining a high degree of bilingualism and, indeed, multi-lingualism, are valuable and life-enhancing competencies.

The school's policy on the medium of teaching and sitting examinations in September 2018 is as follows:

- English is taught and examined in English
- Mathematics and Science are taught bilingually but the medium of assessment/examinations will be in English or Welsh according to the child and parent's choice. **Pupils who have studied these subjects through the medium of Welsh in Year 6 are encouraged to continue to do so in Year 7**
- All other subjects are taught and examined through the medium of Welsh

**This is the policy for every pupil who commences in Year 7 in September 2019 and will remain the same throughout those pupils' career at Penweddig.**

## THE SCHOOL'S ETHOS AND VALUES

The school's core values are referred to in the school's colour prospectus distributed with this information. A particular emphasis is put on getting to know individual pupils well. The values of respect, care and concern and the priority given to providing every pupil with the best possible support are cornerstones of the school's value system. All aspects of the school's work are built on these core values. The school maintains high academic standards and provides a wide-ranging and enriching programme of extra-curricular activities. The school aims to provide every pupil with a rounded education in which particular emphasis is placed on the use of the Welsh language and the awareness of a Welsh identity.

These are the school's aims:

- ◆ To provide a comprehensive education for every pupil, giving particular emphasis to the use of the Welsh language and the awareness of a Welsh identity.
- ◆ To help every pupil to develop as a responsible and mature member of society and to exercise self-discipline in work and play.
- ◆ To help every pupil to respect moral and religious values, and to be tolerant of others.
- ◆ To help every pupil to appreciate the traditions and culture of his/her area and country, and to enjoy and understand other cultures and traditions.

## AROLWG IONAWR 2017

Dyma ddywedodd yr arolygwyr am gwricwlwm Penweddig:

*“ Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn eang ac mae ystod werthfawr o weithgareddau all-gyrsiol gwerthfawr ”*

## DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Crëwyd Penweddig er mwyn cyflwyno addysg Gymreig a chyfrwng Cymraeg i blant gogledd Sir Ceredigion.

Un o brif nodau'r ysgol yw cynnal cymuned Gymreig. Ym Mhenweddig rhoddir statws uchel i'r iaith Gymraeg ac i ddiwylliant ein gwlad.

Ni wneir hynny mewn awyrgylch ynysig, mewn blyg, ond o fewn fframwaith ysgol gyfan ac ystod o weithgareddau sy'n ymestyn gorwelion y disgyblion ymhell tu hwnt i ffiniau'r ardal a ffiniau Cymru. Rhoddir lle amlwg i ddysgu ieithoedd tramor ac i deithiau sy'n rhoi profiadau o wledydd eraill yn Ewrop a thu hwnt. Gwneir pob ymdrech i feithrin dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau a ffyrdd o fyw pobl o bob cenedl.

Daw dros hanner disgyblion yr ysgol o gartrefi lle siaredir dim, neu ond ychydig o Gymraeg. Oriau ysgol yw prif gyfle'r disgyblion hyn i ymarfer eu Cymraeg. **Mae'r ysgol, felly, yn disgwyl i bob disgybl siarad Cymraeg yn holl weithgareddau'r ysgol ac yn erfyn ar rieni i roi pob anogaeth iddynt.**

Yn gynyddol gwelir bod yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn fanteision economaidd yn eu hunain. Mae'r galw am wasanaethau a gweithwyr dwyieithog yn cynyddu'n ddramatig ac yn parhau i wneud hynny. Felly, mae cael caffael da ar y Gymraeg a sicrhau graddfa uchel o ddwyieithrwydd, neu hyd yn oed amlieithrwydd, yn gymwyseddau gwerthfawr a all hyrwyddo ansawdd bywyd unigolion.

Ar gyfer Medi 2018 mae polisi cyfrwng dysgu pynciau a sefyll arholiadau allanol fel a ganlyn :

- Dysgir ac arholir Saesneg yn Saesneg
- Addysgir Mathemateg a Gwyddoniaeth yn ddwyieithog ond fe fydd yr asesiadau/arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dymuniad y plentyn a'i rieni. **Anogir y plant sydd wedi astudio'r pynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlwyddyn 6 i barhau i wneud hynny ym Mlwyddyn 7.**
- Dysgir ac arholir pob pwnc arall trwy gyfrwng y Gymraeg

**Hwn yw'r polisi cyfrwng ar gyfer pob disgybl a fydd yn cychwyn ym Mhenweddig ym Medi 2019 a bydd hyn yn parhau trwy gydol gyrfa ysgol y disgyblion hynny.**

## ETHOS A GWERTHOEDD YR YSGOL

Cyfeirir at y gwerthoedd creiddiol yn y llawlyfr lliw a ddisbarthwyd gyda'r wybodaeth hon. Rhoddir pwyslais arbennig ar adnabyddiaeth dda o ddisgyblion fel unigolion. Arddelir y gwerthoedd o barch, gofal a chonsyrn a rhoddir pwyslais ar gynnyg y gynhaliaeth orau bosib i bob disgybl. Ar y seiliau hyn yr adeiladir holl waith yr ysgol. Cynhelir safonau academaidd uchel a darperir rhaglen eang a chyfoethog o weithgareddau allgyrsiol. Darparu addysg gyflawn yw nod yr ysgol gan roi pwyslais arbennig ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth o Gymreictod.

Dyma nodau'r ysgol:

- ♦ Darparu addysg gyflawn ar gyfer pob disgybl gan roi pwyslais arbennig ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth o Gymreictod.
- ♦ Helpu pob disgybl i ddatblygu'n aelod cyfrifol ac aeddfed o gymdeithas ac i ymarfer hunan-ddisgyblaeth mewn gwaith a chwarae.
- ♦ Helpu pob disgybl i ddysgu parch at werthoedd moesol a chrefyddol, a bod yn oddefgar tuag at eraill.
- ♦ Helpu pob disgybl i werthfawrogi a chyfranogi o draddodiadau a diwylliant ei ardal a'i wlad, ac i fwynhau a deall traddodiadau diwylliannau.

# Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig

- ◆ To help every pupil to develop competencies in language (Welsh, English and others), number, science, physical movement, reasoning and practical dexterity, and to use imagination and creativity.
- ◆ To help every pupil to relate her/his learning and talents to the demands of work, career and leisure in a rapidly changing society.
- ◆ To help every pupil develop an awareness of and respect for the environment in school, the locality and beyond.

## HEALTHY SCHOOL NETWORK

Ysgol Penweddig is an active member of the Welsh Network of Healthy Schools Scheme. A healthy school is one which actively promotes and protects the physical, mental and social health and wellbeing of the community through positive action by such means of policy, strategic planning and staff development with regard to its curriculum, ethos, physical environment and community relations.



## TRANSFERRING FROM PRIMARY SCHOOL

*“The school works closely with its partner primary schools in order to provide a variety of transition activities that ensures a smooth transition from Year 6 to Year 7” (Inspection Report 2017)*

Moving from the primary school to secondary school is an important and significant step for a child to take. The school is aware of this and has developed a programme to try to ensure that each pupil makes the transition with as little anxiety as possible. An open evening is arranged for all families who are considering sending their children to Penweddig. Families are also welcome to contact the school to discuss and obtain additional information on any aspect of Penweddig's provision or to visit the school. During the summer term the Progress Leader responsible for transition from Year 6 to Year 7 together with the Assistant Headteacher with responsibility for Additional Learning Needs will visit each pupil at his/her primary school. Pupils who decide to come to us will be invited to attend a two day course during the summer term in order to get used to the bus arrangements, to get to know other pupils and staff, to familiarise themselves with Penweddig and to ask any questions that they may have about coming to us in September.

Year 7 parents are invited to join us in our assembly on the first morning of the autumn term to share the experience with their child.

During the first term Parents receive a progress report, followed by a Parents' Evening to discuss the pupil's progress in the subject areas.

We believe that this transfer process is comprehensive and, judging by comments received from parents, works effectively in ensuring that **each pupil** settles quickly in their first year at Penweddig.

In addition the school encourages parents to get in touch whenever they want to discuss any aspect of the school's work with us. Parents should feel free to contact us and should not hesitate before doing so. We are very eager to work in close partnership with families.

## THE LANGUAGE CENTRE

Pupils who intend to transfer to Penweddig may have an opportunity to attend a transitional language course held during Year 6 in the Language Centre which is situated in Penweddig. The course, which is usually held after the February half term and during the summer term, aims to give pupils additional help with their Welsh before they transfer to Penweddig. The number of places available is limited and sometimes pupils have to be selected according to their linguistic needs.

Two things are essential if a pupil of whatever background is to succeed, namely, keenness and commitment to learning the Welsh language and to make full use of it.

More than half of Penweddig's pupils come from homes where little or no Welsh is spoken. Penweddig pupils' examination results show that this not a hindrance to pupils' achievements (see the enclosed booklet 'Examination Results 2018').

# Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig

- ◆ Helpu pob disgybl i ddatblygu cymwyseddau ieithyddol (yn y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill), rhifyddol, gwyddonol, corfforol, rhesymegol ac ymarferol, ac i feithrin ei ddefnydd o'i ddychymyg a'i alluoedd creadigol.
- ◆ Helpu pob disgybl i gyrraedd ei safon uchaf o gyrhaeddiad ac i fedru perthnasu a chymhwyso ei ddysg a'i ddoniau ar gyfer gwaith, gyrfa a hamdden mewn cymdeithas sy'n newid yn gyflym.
- ◆ Helpu pob disgybl i ddatblygu ymwybyddiaeth o'i amgylchedd a dangos parch tuag ato o fewn yr ysgol, yn ei fro ei hun a thu hwnt.

## RHWYDWAITH YSGOLION IACH

Mae Ysgol Penweddig yn aelod gweithgar o Gynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru. Mae ysgol iach yn ysgol sy'n mynd ati i hybu a diogelu iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei chymuned trwy gymryd camau cadarnhaol megis llunio polisiau, gwneud gwaith cynllunio strategol a datblygu staff, mewn perthynas â chwricwlwm, ethos ac amgylchedd ffisegol yr ysgol a'i chysylltiadau â'r gymuned.



## TROSGLWYDDO O'R CYNRADD

*Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i hysgolion cynradd partner er mwyn darparu amrywiaeth o weithgareddau pontio sy'n sicrhau trosglwyddo diffwdan o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7" (Adroddiad Arolwg 2017)*

Mae symud o'r ysgol gynradd i'r uwchradd yn gam pwysig ac yn gam mawr i blentyn ei gymryd. Mae'r ysgol yn ymwybodol o hyn ac wedi datblygu rhaglen i geisio sicrhau bod y trosglwyddo yn broses ddibryder i bob disgybl sydd yn dod atom. Trefnir noson agored ar gyfer pob teulu sy'n ystyried anfon plentyn i Benweddig. Mae croeso hefyd i deuluoedd unigol gysylltu â ni i drafod unrhyw agwedd o fywyd Penweddig yr hoffent gael mwy o wybodaeth amdano neu i ymweld â'r ysgol. Yn ystod tymor yr haf bydd yr Arweinydd Cynnydd sy'n gyfrifol am bonito o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 ynghyd â'r Pennaeth Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb dros Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ymweld â phob plentyn yn ei ysgol gynradd. Hefyd trefnir cwrs dau ddiwrnod yn yr ysgol er mwyn i'r plant gyfarwyddo gyda threfn y bysiau, dod i adnabod ei gilydd, y staff a'r ysgol a chael cyfle i holi unrhyw gwestiynau cyn dechrau ym mis Medi.

Ar y bore cyntaf ym mis Medi mae yna wahoddiad i rieni blwyddyn 7 i ddod i'r addoliad boreol am 9 o'r gloch er mwyn rhannu'r profiad gyda'u plant.

Yn ystod y tymor cyntaf mae rhieni yn derbyn adroddiad cynnydd ac i'w ddilyn noson rieni i drafod cynnydd y disgybl yn y pynciau.

Credwn fod y drefn o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, a sicrhau bod **bob plentyn** yn setlo'n gyflym yn y flwyddyn gyntaf, yn un gynhwysfawr a'i bod yn gweithio'n effeithiol.

Yn ychwanegol at hyn mae'r ysgol yn annog pob rhiant i gysylltu â ni ynghlŷn ag unrhyw agwedd o fywyd yr ysgol yn ôl yr angen, ac i beidio ag oedi rhag gwneud hynny. Rydym am gydweithio mewn partneriaeth glos gyda theuluoedd.

## Y GANOLFAN IAITH

Gall fod cyfle i blant sy'n bwriadu trosglwyddo i Benweddig fynychu cwrs Pontio Ieithyddol yn y Ganolfan Iaith sydd wedi ei lleoli ar safle'r ysgol. Fel arfer, cynhelir y cwrs ym Mlwyddyn 6 ar ôl hanner tymor Chwefror ac yn ystod tymor yr haf. Mae'r cwrs hwn ar gyfer plant sydd angen cymorth ychwanegol gyda'r iaith Gymraeg cyn iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i Benweddig. Weithiau mae'n rhaid dethol pwy sy'n mynychu'r cwrs yn ôl yr angen ieithyddol y plant am mai dim ond lle i nifer cyfyngedig sydd yn y Ganolfan.

Mae dau beth yn angenrheidiol er mwyn i ddisgybl o unrhyw gefndir lwyddo ym Mhenweddig, sef [awydd ac ymroddiad i ddysgu Gymraeg ac i wneud defnydd llawn ohoni](#).

Daw dros hanner disgyblion Penweddig o gartrefi lle siaredir dim, neu ond ychydig o Gymraeg. Dengys canlyniadau arholiad disgyblion Penweddig nad yw hyn yn rhwystr i gyflawniad llawn y disgyblion (gweler y llyfryn amgaeedig 'Canlyniadau Arholiad 2018).

## A CURRICULUM STATEMENT

The arrangements noted below may change during a pupil's school career.

In Years 7 to 9 the pupils study the following subjects:

### CORE

Mathematics  
Science  
Welsh  
English

### NON-CORE

Design & Technology, Food Technology, Information Technology,  
French, History, Geography, Religious Education, Music, Art, Physical  
Education and Games, Essential Skills (Communication and Numeracy).

In year 9, pupils will get to choose their subjects to follow in years 10 and 11 from a number of option blocks.

In Years 10 and 11 three kinds of courses are offered:

1. Compulsory, core, non-examination courses: these include PSE, (personal and social education which includes sex education), physical education, careers education, and religious education.
2. Compulsory, core courses leading to examinations: these include science, mathematics, English, Welsh and the Welsh Baccalaureate. The majority of pupils sit both language and literature examinations in both core languages.
3. Optional courses leading to examinations: these include GCSE and intermediate vocational courses

In the Sixth Form (Years 12 and 13), four kinds of courses are currently on offer as part of the Welsh Baccalaureate. All students follow the "WBQ" and choose from a number of optional courses as part of it.

1. Compulsory, core, non-examination courses: these includes religious education, physical education and a wide-ranging personal and social education (PSE) programme.
2. The Welsh Baccalaureate Qualification is studied by all students in Years 12 and 13.
3. Intermediate and advanced vocational courses.
4. Advanced Supplementary (AS) and A level courses up to 30 subjects.

There are a host of voluntary activities that give Sixth Form students ample opportunities to develop their personal skills and to develop their ability to take on responsibilities and to exercise leadership.

***"The school works creatively with other local providers in order to broaden the options that are available in key stage 4 and the sixth form"*** (Inspection Report 2017)

***"The school has a wide range of strong partnerships that enrich pupils' experiences. These have a positive effect on pupils' social skills and life skills"*** (Inspection Report 2017)

## SPECIAL ARRANGEMENTS WITHIN THE CURRICULUM

In Year 7, pupils are put into registration classes mainly according to friendship groups. Efforts are also made to ensure that pupils make new friends from other primary schools and from different linguistic backgrounds. They remain in these registration classes for five years, as far as possible, with the same form teacher.

In years 7 most classes are of mixed ability. After the pupils have settled in, the school sets diagnostic tests to identify strengths and weaknesses in literacy and numeracy in order to arrange extra help if necessary. In years 8 and 9 pupils are placed in sets according to ability on the basis of statutory tests and assessments in Welsh, English, Mathematics and Science. These tests also provide information used to identify More Able and Talented children and to plan suitable work and activities for them. We will contact parents regarding the strengths and weaknesses of their child and the provision for More Able and Talented children. During the year, departments set internal tests which are used in order to move pupils between sets and to give the pupils the best opportunity to make progress.

## DATGANIAD AR Y CWRICWLWM

Gall y trefniadau a nodir isod newid yn ystod gyrfa disgybl.

Ym mlynnyddoedd 7 i 9 mae'r disgyblion yn astudio'r pynciau canlynol:

### CRAIDD

Mathemateg  
Gwyddoniaeth  
Y Gymraeg  
Saesneg

### ALLGRAIDD

Dylunio & Thechnoleg, Technoleg Bwyd, Technoleg Gwybodaeth,  
Ffrangeg, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Cerddoriaeth, Celf,  
Addysg Gorfforol a Chwaraeon, Sgiliau Hanfodol (Cyfathrebu a Rhif).

Ym mlwyddyn 9 caiff disgyblion ddewis eu pynciau i'w dilyn ym mlynnyddoedd 10 ac 11 o nifer o flociau dewis.

Ym mlwyddyn 10 ac 11 cynigir tri math o gwrs:

1. Cyrsiau craidd, gorfodol di-arholiad : cyfeirir yn y fan yma at ABCh (addysg bersonol a chymdeithasol sy'n cynnwys addysg rhyw), addysg gyrfaoedd, addysg grefyddol ac addysg gorfforol.
2. Craidd gorfodol sy'n arwain at arholiad: cyfeirir yma at wyddoniaeth, mathemateg, Saesneg, Cymraeg a'r Fagloriaeth. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn sefyll arholiadau iaith a llenyddiaeth yn y ddwy iaith graidd.
3. Cyrsiau dewisol sy'n arwain at arholiad: cyfeirir yma at gyrsiau TGAU a galwedigaethol canolradd

Yn y Chweched Dosbarth (Blwyddyn 12 a 13) cynigir pedwar math o gwrs fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Mae pob myfyriwr yn dilyn y "Bac" gan ddewis o blith y cyrsiau dewisol fel rhan ohono.

1. Craidd gorfodol di-arholiad: cynhwysir addysg grefyddol, addysg gorfforol a rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCH) eang.
2. Astudir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru gan bob myfyriwr.
3. Cyrsiau galwedigaethol canolradd ac uwch.
4. Cyrsiau uwch gyfrannol (AS) a safon uwch (lefel A) hyd at 30 o bynciau.

Mae yna lu o weithgareddau gwirfoddol sy'n caniatáu cyfleoedd da i fyfyrwyr chweched dosbarth ddatblygu eu sgiliau personol ac i feithrin eu gallu i gymryd cyfrifoldeb ac i arwain.

***"Mae'r ysgol yn gweithio'n greadigol gyda darparwyr lleol eraill er mwyn ehangu'r dewisiadau sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth"*** (Adroddiad Arolwg 2017)

***"Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau cryf sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion"*** (Adroddiad Arolwg 2017)

## TREFNIADAU ARBENNIG O FEWN Y CWRICWLWM

Ym mlwyddyn 7, rhoddir disgyblion mewn dosbarthiadau cofrestru cymysg yn bennaf yn ôl grwpiau cyfeillion. Ceisir sicrhau hefyd bod plant yn gwneud ffrindiau newydd o ysgolion cynradd eraill ac o ran cefndir ieithyddol. Byddant yn aros yn y dosbarthiadau cofrestru hyn am bum mlynedd, gyda'r un athro/athrawes pan fo hynny'n bosibl.

Ym mlwyddyn 7 mae'r rhan fwyaf o'r dosbarthiadau yn allu cymysg. Wedi i ddisgyblion setlo, mae'r Ysgol yn gosod profion diagnostig sy'n adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion mewn llythrennedd a rhif er mwyn trefnu cymorth os oes angen. Ym mlwyddyn 8 a 9 gosodir y disgyblion mewn setiau yn ôl gallu ar sail canlyniadau profion safonol ac asesiadau yn y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae'r profion hyn hefyd yn gyfle ychwanegol i adnabod plant Mwy Abl a Thalentog ac i gynllunio gwaith a gweithgareddau addas iddynt. Byddwn yn cysylltu gyda rhieni i ddweud wrthynt am gryfderau a gwendidau eu plentyn ac ynglŷn â darpariaeth Mwy Abl a Thalentog. Yn ystod y flwyddyn mae'r adrannau yn gosod profion mewnol sy'n cael eu defnyddio er mwyn symud disgyblion rhwng setiau a rhoi'r cyfle gorau i ddisgyblion wneud cynnydd.

# Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig

Subject Leaders/Heads of Progress include parents in the discussion regarding changing sets and the emphasis is on making the decision which ensures that the child makes the best progress.

Pupils may change sets following consultation with parents, Subject Leader/Head of Progress and the Senior Management Team.

In Years 10 and 11, pupils are set according to ability for Welsh, English, Mathematics and Science. In these years Mathematics and Science sets may be taught bilingually with the pupils choosing the medium of the examination.

In Years 12 and 13, biology, chemistry, physics and Mathematics are taught bilingually with pupils choosing the medium of the examination.

Appropriate provision is made when a pupil needs additional support.

## HOMEWORK

The school uses the "Show My Homework" website/app for students and parents to view homework details and upcoming deadlines. "Show My Homework" will help the pupils by:

- Keeping Homework organised
- Sending reminders for when homework is due
- Help show how much homework they have
- Not needing to write homework down

Each pupil will receive training, and there will be a presentation for parents.

## ADDITIONAL LEARNING NEEDS: CENTRAL ROLE OF THE LEARNING SUPPORT DEPARTMENT

The inspectors state that, *"the school provides valuable care for vulnerable pupils and those with additional learning needs"*.

The Learning Support Department comprises of 1 teacher and a team of learning assistants.

The school's special education policy sets out how the school endeavours to meet each pupil's additional learning needs. The policy reflects the requirements of the Code of Practice. There is a range of provision to meet individual needs ranging from withdrawal from certain lessons to providing a support teacher/assistant within lessons.

There is a Bilingual Dyslexia Unit and additional intervention groups to support literacy and numeracy. The 'CLICS' programme is used to develop reading skills in Welsh and in English. There are also social use of language programme lessons to help pupils develop their social skills.

During the process of identifying and analysing a pupil's specific needs the school works closely with parents so that a strong and effective partnership is established. At present 6 pupils have Statements of Special Educational Needs and there are 255 children on the school's Additional Learning Needs register.

One of the Governors has been nominated to take a specific interest in special needs. Good links have been established between the school and the County including the Educational Psychology Service and other external agencies.

The school site and building have been designed to fully meet the needs of pupils and adults with additional needs.

## LOOKED-AFTER CHILDREN

A link governor is appointed with responsibility for looked-after children, and a senior member of staff has responsibility for ensuring their academic achievement and welfare in partnership with the LEA. The designated person is Mrs E Page, Assistant Headteacher

*"The school is a caring and inclusive community"* (Inspection Report 2017)



# Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig

Mae'r Arweinydd Pwnc/Arweinydd Cynnydd yn cynnwys rhieni yn y drafodaeth ynglŷn â symud setiau ac mae'r pwyslais ar wneud y penderfyniad sydd orau i sicrhau cynnydd y plentyn.

Gall disgyblion newid setiau yn dilyn ymgynghoriad gyda rhieni, yr Arweinydd Pwnc/Arweinydd Cynnydd a'r Uwch Dîm Rheoli.

Ym Mlwyddyn 10 ac 11, gosodir disgyblion mewn setiau yn ôl eu gallu mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Gall y dosbarthiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth gael eu dysgu'n ddwyieithog yn ystod y blynyddoedd hyn.

Ym Mlynnyddoedd 12 a 13, dysgir Mathemateg, Bioleg, Cemeg a Ffiseg yn ddwyieithog gyda'r disgybl yn dewis cyfrwng yr arholiad.

Lle y mae angen cynhaliath ychwanegol ar ddisgybl, trefnir rhaglen addas yn ôl angen yr unigolyn.

## GWAITH CARTREF

Mae'r ysgol yn defnyddio gwefan/Ap "Show My Homework" i ddisgyblion a rhieni weld manylion gwaith cartref a dyddiadau cyflwyno. Bydd "Show My Homework" yn helpu'r disgyblion drwy:

- Gadw trefn ar waith cartref
- Anfon negeseuon hysbysu pan fo angen cwblhau gwaith cartref
- Helpu i ddangos faint o waith cartref sydd i'w wneud
- Dim angen ysgrifennu beth yw'r gwaith cartref

Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i bob disgybl, ynghyd â chyflwyniad i rieni.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL: RÔL GANOLOG YR ADRAN GYNNAL

*"Mae'r ysgol yn darparu gofal gwerthfawr i ddisgyblion bregus a rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol"*, medd yr Arolygwyr.

Mae yna 1 athrawes a thîm o gynorthwywyr dysgu yn yr Adran Gynnal.

Mae gan yr ysgol bolisi addysg arbennig sy'n diffinio sut mae'r ysgol yn ceisio cwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl. Lluniwyd y polisi yn unol â gofynion Côt Ymarfer Addysg Arbennig. Ymatebir i sefyllfa disgyblion unigol trwy wahanol ddulliau megis tynnu allan o wersi penodol neu trwy roi athro/cynorthwywr cynhaliol i mewn i wersi.

Mae yna Ganolfan Ddyslecsia Ddwyieithog ynghyd â grwpiau ymyraeth ychwanegol i hybu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Gwneir defnydd o gynllun CLICS ar gyfer cryfhau medrusrwydd darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hefyd, trefnir gwersi hybu iaith i wella sgiliau cymdeithasol rhai disgyblion.

Dadansoddir anghenion disgyblion unigol gyda'r teulu er mwyn sicrhau partneriaeth gref ac effeithiol er budd y disgybl. Ar hyn o bryd mae 6 disgybl yn destun Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig ac mae tua 255 o blant ar Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol.

Mae gan un o'r Llywodraethwyr gyfrifoldeb am oruchwylio gwaith yr ysgol yn y maes hwn. Sefydlwyd cydweithrediad da rhwng yr ysgol a'r Sir gan gynnwys y gwasanaeth seicolegol addysgol a chydag asiantaethau eraill.

Mae'r adeilad ysgol wedi ei ddylunio'n briodol ac yn fwriadus er mwyn hwyluso mynediad a symudiad pobl ag anhawsterau ychwanegol.

## DISGYBLION MEWN GOFAL

Dynodir llywodraethwr a gofal dros ddisgyblion mewn gofal ac mae aelod hŷn o staff yn gyfrifol am eu cynnydd yn academiaidd a hybu eu lles mewn cydweithrediad â'r AALI. Y person dynodedig yw Mrs E Page, Pennaeth Cynorthwyol.

*"Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol"* (Adroddiad Arolwg 2017)

## HAFAN & ENCIL

**Hafan:** This is a centrally situated room within the school to where a pupil is referred for emotional and practical support. It aims to support the pupil with aspects of school life which he/she find difficult. A pupil may self refer to Hafan or be referred by a member of staff.

**Encil:** A pupil is referred to Encil when he/she does not conform to school rules and to internally exclude. In the case of an internal exclusion, parents are contacted to let them know and a record is kept. A pupil may spend up to a maximum of 3 days in internal exclusion.

To ensure a consistency of approach a pupil can only be referred to Encil by the Senior Management Team.

A confidential counselling service is available on the school site two days a week. A pupil may self refer or an appointment can be made via a member of staff.

## DISCIPLINE AND SCHOOL EXPECTATIONS

### The school's core values are:

- Have respect for yourself and for others
- Respect people's property and the environment
- Have respect for the School
- Use Welsh as much as you are able

### The school's expectations are:

- Always be on time
- Stand when a member of staff comes into the room
- Bring all necessary equipment to lessons
- Enter and leave the classroom in an orderly manner
- Work quietly and follow the teacher's instructions
- Do not disturb other people while they are working
- Work hard to keep to all deadlines
- Ensure that you catch up with any work you miss
- Work quietly in the Resource Centre
- Use the computer system for work purposes only
- Do not eat or drink in the classroom or the Resource Centre\*
- Keep mobile phones and i-pods/MP3/music players out of sight and switched off.\*\*
- Do not use them whilst on the school site
- Do not behave in a way which undermines the good name of the school

\*Bottled water is permitted in some lessons with the teacher's permission

\*\*Mobile phones may be used to contact parents outside school hours. In an emergency, pupils and parents must contact one another via the school office phone.

### Health and safety guidelines include:

- Be punctual for morning and afternoon registration
- Stay on the school site during the school day (Yr 7 - 11)
- Only go to the Leisure Centre for lessons
- Follow all fire instructions and arrangements concerning the buses
- No alcohol, drugs or smoking
- No jewellery other than one pair of ear-rings ('studs' or 'sleepers' for ears only)
- Walk on the left on corridors and stairs
- No congregating on the first floor during break and lunch hour
- Put litter in bins and keep the school clean
- No chewing gum on the site

If pupils behave badly teachers are entitled to reprimand or discipline them within reason – by setting extra work or keeping them in detention. If we are not satisfied with a pupil's attitude, we invite parents to the school to discuss the problem. In some instances of misbehaviour or patterns of misbehaviour a pupil may be kept in after school. Parents will be informed at least five days in advance. In more serious cases of misbehaviour pupils may be excluded from school. The above sanctions are all employed within the framework of the school's behaviour policy. A copy of the policy is on the school's website. A parent has the right to appeal to the Governors if they do not agree with any action taken.

# Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig

## YR HAFAN A'R ENCIL

**Hafan:** Ystafell ganolog yn yr ysgol ble y cyfeirir disgybl er mwyn derbyn cynhaliath emosiynol ac ymarferol. Y bwriad yw cynnig cynhaliath i'r disgybl i ymdopi gydag agweddau o fywyd yr ysgol sy'n anodd iddo ef/iddi hi. Gall ddisgybl gyfeirio ei hunan at yr Hafan neu gael ei gyfeirio gan aelod o staff.

**Encil:** Cyfeirir disgybl at yr Encil pan nad yw'n cydymffurfio â rheolau'r ysgol ac i ynysu'n fewnol. Pan gyfyd achos o ynysu mewnol cysylltir â rhieni i roi gwybod iddynt a chedwir cofnod o hynny. Gall ddisgybl fod yn yr Encil hyd at fwyafswm o 3 diwrnod.

Er mwyn sicrhau cysondeb, dim aelodau'r Uwch Dîm Rheoli all gyfeirio disgybl i'r Encil.

Cynigir gwasanaeth cwnsela ar safle'r ysgol dau ddiwrnod yr wythnos. Mae modd i ddisgybl gyfeirio ei hunan neu gall wneud apwyntiad drwy gysylltu ag aelod o staff.

## DISGYBLAETH A DISGWYLIADAU'R YSGOL

### Gwerthoedd creiddiol yr ysgol yw:

Parchu eich hunan ac eraill  
Parchu eiddo ac amgylchedd  
Parchu'r Ysgol

Defnyddio'r Gymraeg hyd eithaf eich gallu

### Disgwyliadau'r ysgol yw'r canlynol:

Bod yn brydlon bob amser  
Codi pan ddaw aelod o staff i'r ystafell ddysgu  
Dod â'r holl offer i'r gwersi  
Dod i mewn, a gadael y dosbarth yn drefnus  
Gweithio'n dawel a dilyn cyfarwyddiadau'r athro  
Peidio â tharfu ar waith eraill  
Gweithio yn galed i gadw at ddyddiadau penodol  
Sicrhau bod gwaith a gollwyd yn cael ei gwblhau  
Gweithio'n dawel yn y Ganolfan Adnoddau  
Defnyddio cyfrifiaduron at bwrpas gwaith ysgol yn unig  
Peidio â bwyta nac yfed yn yr ystafell ddosbarth neu'r Ganolfan Adnoddau\*  
Cadw ffonau symudol a chwaraewyr MP3/cerddoriaeth allan o'r golwg ac wedi eu diffodd. \*\*  
Peidio â'u defnyddio o gwbl tra ar safle'r ysgol  
Peidio gweithredu mewn ffordd sydd yn tanseilio enw da'r ysgol

\*Caniateir dŵr mewn potel mewn rhai gwersi gyda chaniatâd yr athro

\*\*Caniateir defnydd o ffonau symudol ar gyfer cysylltu â rhieni y tu allan i oriau ysgol. Mewn argyfwng, mae angen i ddisgyblion a rhieni ddefnyddio ffôn swyddfa'r ysgol

### O ran iechyd a diogelwch dylid dilyn y canllawiau hyn:

Cofrestru'n brydlon bore a phrynhawn  
Aros ar safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol (Bl 7 - 11)  
Mynychu'r Ganolfan Hamdden adeg gwersi yn unig  
Dilyn y cyfarwyddiadau tân a threfniadaeth y bysiau  
Dim ysmegu, cyffuriau neu alcohol  
Dim gemwaith oni bai am un pâr o glustdlysau ('sleepers' neu 'studs' yn y clustiau yn unig)  
Cerdded ar y chwith ar y coridorau a'r grisiau  
Dim ymgasglu ar y llawr uchaf amser egwyl a chinio  
Rhoi ysbwriel yn y bin a chadw'r ysgol yn lân  
Dim gwm cnoi ar y safle

Os bydd plentyn yn ymddwyn yn wael, mae gan athrawon yr hawl i drefnu cosb megis gwaith ychwanegol neu ei gadw i mewn yn yr atalfa. Os nad ydym yn fodlon ar agwedd disgybl, byddwn yn gwahodd ei rieni i'r ysgol i drafod y broblem. Mewn rhai achosion o gamymddwyn neu batrwm o gamymddwyn cedwir y disgybl i mewn ar ôl ysgol. Pan ddigwydd hyn, hysbysir y rhieni o leiaf pum niwrnod o flaen llaw. Mewn achosion mwy difrifol o gamymddwyn gellir gwahardd disgybl o'r ysgol. Defnyddir y sancsiynau uchod oddi mewn i fframwaith polisi ymddygiad yr ysgol. Mae copi o' polisi ar wefan yr ysgol. Mae gan riant yr hawl i gy-sylltu â'r Corff Llywodraethol os anghytunir gyda gweithred ddisgyblaethol.

# Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig

## Serious Misbehaviour

The types of behaviour listed below are not acceptable at any time in School.

Stealing  
Vandalism  
Physical Attack  
Possession/Use/Supply of alcohol  
Possession/Use/Supply of drugs  
Possession /Use of a dangerous weapon  
Abusive or threatening behaviour towards a member of staff  
Behaviour which puts others in danger  
Use of the computer equipment to damage other people's work  
Interfering with or compromising the computer management system  
